

# **Meini prawf drafft ar gyfer achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru a'r cynnig i Gyngor y Gweithlu Addysg achredu addysg gychwynnol i athrawon**

## **Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad**

Eich enw: Phil Higginson

Sefydliad (os yw'n berthnasol): UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)

e-bost/rhif ffôn: [ucac@ucac.cymru](mailto:ucac@ucac.cymru)

Eich cyfeiriad: Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 14 Tachwedd 2016 at:

Julie Owens  
Uned Strategaeth y Gweithlu  
Y Gyfarwyddiaeth Addysg  
Llywodraeth Cymru  
Sarn Mynach  
Cyffordd Llandudno  
Conwy  
LL31 9RZ

neu gellir llenwi'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i:

e-bost: [ITEducationAddysgGA@cymru.gsi.gov.uk](mailto:ITEducationAddysgGA@cymru.gsi.gov.uk)

**Cwestiwn 1** – A ddylai Cyngor y Gweithlu Addysg gael cyfrifoldeb statudol am achredu'r holl raglenni addysg gychwynnol athrawon (AGA) yng Nghymru?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	X	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
<b>Sylwadau ategol</b>					
<p>Nid yw'r ddogfen ymgynghorol yn mynd i fanylder am brofiad CGA ym maes achredu, nac am unrhyw newidiadau y byddai eu hangen o ran adnoddau a hyfforddiant i sicrhau bod modd i CGA wneud y math o waith yn effeithiol. Mae'n anodd dweud, felly, os mai'r CGA byddai yn y sefyllfa gorau i achredu'r cyrsiau hyn.</p> <p>Gan ystyried y gwaith sylweddol sydd gan CGA fel Rheoleiddiwr yr holl weithlu addysg, mae'n rhaid gofyn a oes gan CGA yr adnoddau a'r gallu (capacity) i gyflawni'r gwaith?</p> <p>Ar un llaw, mae'n ymddangos yn rhesymol cynnig bod y CGA - sydd yn rheoleiddio'r proffesiwn - yn cael rôl yn y gwaith. Ar y llaw arall, cyfeirir yn y ddogfen at rôl achredu i CGA fel llais y proffesiwn yn y gwaith o achredu. Ym marn UCAC, o brofiad ein haelodau, nid ydynt yn gyffredinol yn canfod CGA fel "llais" y proffesiwn.</p> <p>Nodir yn y ddogfen ymgynghorol y bydd dal rôl gan y CCAUC. Beth fydd natur y berthynas rhwng y CGA a CCAUC? Os bydd gan y ddau gorff rôl o ran darparu AGA, bydd rhaid bod yn hollol eglur a thryloyw ynglŷn â'u perthynas.</p>					

**Cwestiwn 2** – A ddylai Cyngor y Gweithlu Addysg sefydlu Pwyllgor Achredu Addysg Gychwynnol i Athrawon?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	X
<b>Os ydych chi'n anghytuno, nodwch y manylion pellach y dylid eu darparu.</b>					
<p>Bydd angen sefydlu Pwyllgor o'r math yma os bydd CGA yn derbyn y cyfrifoldeb am y gwaith. Os hynny, bydd angen sicrhau bod aelodau'r Pwyllgor yn derbyn hyfforddiant addas a bod gan CGA yr adnoddau i gyflawni'r gwaith.</p> <p>Bydd angen sicrhau bod y gwaith yn cael ei ariannu'n uniongyrchol gan y Llywodraeth ar gyfer y gwaith ac na fydd unrhyw elfen o ffioedd y gweithlu sydd yn gorfod cofrestru gyda CGA yn cael ei ddefnyddio. Bydd angen tryloywder am sut mae gwahanol elfennau o waith y Cyngor yn cael ei hariannu.</p>					

**Cwestiwn 3** – Ydych chi'n cytuno bod y meini prawf ar gyfer achredu AGA yng Nghymru, fel y nodwyd yn Atodiad A, yn darparu digon o fanylion ar gyfer datblygu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	X	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
--------	--------------------------	-----------	---	---------------------------------	--------------------------

## **Os ydych chi'n anghytuno, nodwch y manylion pellach y dylid eu darparu.**

Mae angen i bob SAU/partneriaeth cynnig llwybr cyfrwng Cymraeg. Hefyd, dylid nodi natur y llwybr, a'r gofynion o ran y meini prawf.

Dylai fod modd dilyn y cwrs yn gyfan gwbl ac yn rhannol trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys cyfrwng yr addysgu, cefnogaeth ychwanegol, y lleoliadau profiad dysgu a'r asesiadau.

Mae hefyd yn aneglur ynglŷn â faint o amrywiaeth bynciau / cyfnodau allweddol / cyrsiau bydd angen i bartneriaeth gynnig. Mae angen sicrhau trosolwg er mwyn llwyddo i drefnu bod nifer digonol o fyfyrwyr yn dilyn cwrs addysg gychwynnol athrawon ym mhob pwnc / cyfnod allweddol / cyfrwng Cymraeg, er mwyn cynllunio gweithlu'r dyfodol yn llwyddiannus.

Nid yw'r ddogfen ymgynghorol yn cyfeirio o gwbl at gynllunio niferoedd ar gyfer AGA. Cred UCAC ei fod yn allweddol cynllunio niferoedd yn ofalus ar gyfer gweithlu'r dyfodol. Golyga hyn nid yn unig addysgu'r nifer cywir o athrawon ar gyfer y dyfodol, ond gosod targedau clir ar gyfer cyfnodau allweddol a phynciau penodol.

Mae UCAC yn arbennig o bryderus o ystyried y sefyllfa gyfredol am y diffyg o ran targedu niferoedd o siaradwyr Cymraeg i ymuno â'r proffesiwn. Mae angen targedau clir ac uchelgeisiol ar gyfer cynyddu niferoedd / canrannau myfyrwyr i ddilyn y cyrsiau AGA trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal â hyn mae angen sicrhau targedau clir ac uchelgeisiol ar gyfer athrawon AGA i addysgu'r Gymraeg fel pwnc.

Nid yw'r sefyllfa gyfredol yn dderbyniol. Mae'n allweddol bwysig er mwyn gwireddu polisiau addysg Llywodraeth Cymru (e.e. Cwricwlwm i Gymru) a'r polisiau i ddatblygu niferoedd siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, ein bod yn gallu cynyddu niferoedd siaradwyr Cymraeg - a'r sawl sydd yn gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg - yn y gweithlu addysg. Ni fydd hyn yn digwydd heb osod targedau niferoedd / canrannau. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru arwain yn gadarn ar hyn.

Mae angen gosod targedau penodol i bob SAU/Partneriaeth am lefydd ar gyfer siaradwyr Cymraeg i ddilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg ac am lefydd Cymraeg fel pwnc arbenigol.

Bydd angen monitro hyn yn ofalus a chadw trosolwg o'r niferoedd. Mae'n rhaid i'r gallu i ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg fod yn elfen gref o'r achrediad.

Pwy fydd yn gyfrifol am osod targedau a monitro bod hyn yn digwydd? Oni bai bod targedau'n cael eu gosod a'u monitro nid oes gobaith o wireddu targed Llywodraeth Cymru "Miliwn o Siaradwyr Cymraeg," na thargedau Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru. Mae angen i'r meini prawf ar gyfer y SAU/Partneriaethau gynnwys cyfeiriadau llawer mwy cadarn at y Gymraeg.

Mae angen pwyslais ar:

- sut fydd y SAU/ partneriaeth yn paratoi ar gyfer addysgu'r Gymraeg fel un continwmm
- sut fydd y SAU/partneriaethau'n denu siaradwyr Cymraeg i'r proffesiwn;
- faint o lefydd cyfrwng Cymraeg maent yn gallu cynnig (a pha gyrsiau);

- sut fydd y SAU/partneriaethau'n sicrhau bod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o safon uchel, wedi'i staffio'n gywir a bod yr holl elfennau a chefnogaeth ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae yna wendid amlwg yn y meini prawf o ran y Gymraeg – fel cyfrwng ac fel pwnc – ac mae'n rhaid mynd i'r afael â hyn ar fyrder.

**Cwestiwn 4** – Ydych chi'n cytuno gyda'r rolau a'r cyfrifoldebau a gynigir ar gyfer ysgolion a phartneriaethau SAU (sefydliadau addysg uwch)?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	X	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
<p><b>Os ydych chi'n anghytuno, nodwch y manylion pellach y dylid eu darparu.</b></p> <p>Mae'r syniadau a'r weledigaeth yn ymddangos yn ddiddorol ac yn gyffrous. Rydym yn cydnabod bod yna fanteision i gyd-weithio, ac yn bendant bod datblygu ac addasu rolau'r SAU a'r ysgolion yn ymddangos yn bositif er budd y myfyrwyr.</p> <p>Ar y llaw arall, mae gennym bryderon am y llwyth gwaith ychwanegol amlwg bydd yn deillio o'r angen i ddatblygu partneriaethau cryfach ac ymestyn rôl yr ysgolion. Bydd disgwyl i ysgolion gymryd llawer mwy o gyfrifoldeb am agweddau o'r cwrs yn ogystal â'r broses o gyfweld darpar-myfyrwyr.</p> <p>Mae gweithio mewn partneriaeth yn ei hun, yn anorod yn creu gwaith ychwanegol. Bydd y newid mewn rolau i staff ysgolion a SAU yn gofyn am fuddsoddiad ariannol, hyfforddiant a buddsoddiad mewn staff ychwanegol er mwyn i'r partneriaethau ffynnu. Bydd angen staffio ar lefel uwch, priodol.</p> <p>Rydym yn cydnabod y budd addysgiadol tebygol o gyd-weithio ac o rannu'r disgwyliadau yn y modd a nodir, ond yn bryderus iawn am effaith y gofynion ar lwyth gwaith sydd yn barod yn ormodol – yn yr ysgolion a'r prifysgolion – oni bai bod buddsoddiad addas yn y datblygiadau allweddol hyn.</p> <p>Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth o bwysigrwydd Deddf Cydraddoldeb 2010, ond mae angen sicrhau, nid yn unig bod y myfyrwyr yn ymwybodol o anghenion cydraddoldeb allai effeithio ar eu disgyblion, ond bod y partneriaethau yn rhoi sylw teg i faterion cydraddoldeb sy'n effeithio ar eu myfyrwyr, Mae angen i'r proffesiwn fod yn fwy cynhwysol; er enghraifft, ar hyn o bryd, dim ond 0.03% o athrawon sydd wedi eu cofrestru gyda CGA sydd yn nodi bod ganddynt anabledd. Mae angen sicrhau bod plant sydd ag anabledd yn cael model rôl bositif.</p> <p>Gweler, hefyd, y sylwadau ategol ar y diwedd.</p>					

**Cwestiwn 5** – Ydych chi'n cytuno â'r gofynion cyffredinol y mae'n rhaid i ddarparwyr achrededig eu bodloni ar gyfer holl raglenni astudio AGA?

Cytuno	X	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
<p><b>Os ydych chi'n anghytuno, eglurwch pam.</b></p> <p>Dylai'r gallu i gynnig profiadau cyfrwng Cymraeg fod yn orfodol i bob partneriaeth.</p> <p>Mae angen hefyd cofio cynnwys gofynion am y Gymraeg a dwyieithrwydd a nodir yn atebion 8 a 9.</p>					

Dylai elfen o waith ar ymwybyddiaeth o Anghenion Dysgu Ychwanegol (a Deddfwriaeth berthnasol i raddau) fod yn un o'r gofynion cyffredinol. Efallai bydd hwn yn dod yn rhannol o dan gwaith Cydraddoldeb ond bydd angen gwaith mwy penodol efallai ar addysgu disgyblion ag ADY.

Dylai fod elfen o'r cwrs yn ymwneud a rheoli straen yn y gweithle, rheoli llwyth gwaith, a chydbwysedd bywyd gwaith.

**Cwestiwn 6** – Ydych chi'n cytuno â'r safonau gofynnol ar gyfer derbyn a dewis athrawon dan hyfforddiant yng Nghymru?

Cytuno	X	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
<p>Os ydych chi'n anghytuno, eglurwch pam.</p>					

**Cwestiwn 7** – Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor y dylai Cyngor y Gweithlu Addysg gael y pŵer i godi ffi (a fydd yn destun ymgynghoriad ar wahân) am ystyried ceisiadau, y bydd rhaid i SAU sy'n cymryd rhan yn y broses achredu ei thalu?

<b>Cytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<b>X</b>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
<b>Os ydych chi'n anghytuno, eglurwch pam.</b>					
Dylai'r cynllun gael ei ariannu'n uniongyrchol gan y Llywodraeth.					

**Cwestiwn 8** – Sut allai'r polisi dan ystyriaeth gael ei ffurfio neu ei ddiwygio fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, o ran:

- (a) cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg?  
 (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**Sylwadau ategol**

Dylai'r gallu i gynnig profiadau dysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog/dwy ffrwd fod yn orfodol i bob SAU/partneriaeth.

Dylai bob partneriaeth gynnwys ysgolion sydd yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Dylai fod modd i fyfyrwyr ddewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

Dylid sicrhau cyfleoedd yn y SAU i ddefnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd ac i dderbyn gwybodaeth am y cwrs / cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Dylid darparu gwasanaethau i fyfyrwyr yn ddwyieithog, e.e. gwasanaeth gyrfaoedd, mentoriaid a thiwtoriaid, gwasanaeth cwnsela - unrhyw wasanaeth sydd ar gael i fyfyrwyr y cwrs yn gyffredinol - fel bod cefnogaeth ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg i'r sawl sydd yn dymuno hynny.

Byddai'n fuddiol darparu cyrsiau Gloywi laith a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

**Cwestiwn 9** – Sut allai'r polisi dan ystyriaeth gael ei ffurfio neu ei ddiwygio fel na fyddai'n cael effeithiau niweidiol, neu'n cael llai o effaith niweidiol o ran:

- (a) cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg?  
 (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**Sylwadau ategol**

Trwy wneud darpariaeth llwybr cyfrwng Cymraeg yn un o ofynion y cynllun. Gweler, hefyd, sylwadau mewn ymateb i gwestiwn 8.

Trwy recriwtio a thargedu nifer digonol o siaradwyr Cymraeg ac o fyfyrwyr sydd yn dymuno dilyn y cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Cwestiwn 10** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

### **Sylwadau ategol**

Nid ydym wedi cytuno nac anghytuno i Gwestiwn 4, oherwydd oni ariennir y cynllun, a'r ysgolion, yn ddigonol, ni fydd modd iddynt gyflawni gofynion 4.3.2.3-5

Mewn rhai achosion bydd gofod yr ysgol yn creu rhwystr i'r ysgol gael ei dynodi'n addas fel darparwr. Gallai hyn olygu bod ysgolion ac addysgwyr ardderchog yn colli'r cyfle i rannu arbenigedd.

Wrth gydnabod pwysigrwydd cyfleusterau da a gofod addas ar gyfer y gwaith mentora a'r holl waith AGA, credwn na ddylai unrhyw ysgol a allai ddarparu profiadau arbennig i fyfyrwyr gollu'r cyfle oherwydd rhwystrau o ran yr adeilad neu gyfleusterau eraill sydd tu allan i'w rheolaeth.

Mae'n anodd gwneud sylw ar y deilliannau, o ystyried bod y Safonau Proffesiynol diwygiedig yn dal o dan drafodaeth.

Rydym yn croesawu'r ffaith bod y meini prawf yn nodi'n glir yr angen i ddiogelu amser i fentoriaid a staff sydd yn gweithio ar y bartneriaeth. Bydd oblygiadau ariannol i hyn ac mae'n bwysig ariannu hyn yn llawn.

Mae heriau ymarferol yn codi ar unrhyw adeg pan fydd disgwyl gweithio mewn partneriaeth – mae'n anorfod. Mae diffyg arian yn cynyddu'r heriau ac yn tanseilio ymdrechion i gydweithio – felly mae ariannu digonol yn allweddol.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:

